Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Cynlluniau datblygu ysgolion

## Canllawiau

Dogfen ganllaw rhif: 155/2014
Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2014

# Cynlluniau datblygu ysgolion

**Cynulleidfa**

Bwriedir y ddogfen hon ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion a meithrinfeydd) yng Nghymru. Bydd y canllawiau hefyd o ddiddordeb i benaethiaid a staff ysgolion, Prif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar Reoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014 a ddaeth i rym ar 27 Hydref 2014. Y bwriad yw cefnogi ysgolion i ymgorffori dull cynllunio strategol cadarn i gyflawni gwelliannau yn neilliannau dysgwyr.

**Camau i'w cymryd**

Mae gofyn i bob ysgol gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014 erbyn 1 Medi 2015.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Cynlluniau Datblygu Ysgolion
Is-adran Safonau Ymarferwyr a Datblygu Proffesiynol
Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: PracticeReviewandDevelopment@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon i'w chael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

**Dogfennau cysylltiedig**

Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014 (www.cymru.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/school-development-plans/?lang=cy); Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014; Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007 – fel y'u diwygiwyd; Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 – fel y'u diwygiwyd; Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 – fel y'u diwygiwyd; Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011; *Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol* (Llywodraeth Cymru, 2014) (www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/national-model-for-regional-working/?skip=1&lang=cy).

ISBN digidol 978 1 4734 2297 1
© Hawlfraint y Goron 2014
WG22987

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Diben cynllun datblygu ysgol** | **3** |
| **Rolau a chyfrifoldebau** | **4** |
| **Nodweddion cynllun datblygu ysgol effeithiol** | **5** |
| **Cylch llunio cynllun datblygu ysgol** | **6** |
| **Gweledigaeth** | **7** |
| **Cam 1: Hunanwerthuso** | **8** |
| **Cam 2: Cynllunio strategol** | **10** |
| **Cam 3: Gwneud gwelliant/gweithredu** | **16** |
| **Cam 4: Adolygu effaith** | **17** |
| **Cyhoeddi cynllun datblygu ysgol a mynediad iddo** | **18** |
| **Cymorth a her** | **19** |
| **Arolygu** | **20** |
| **Rhagor o wybodaeth** | **21** |

# Cyflwyniad

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi gosod rhaglen heriol ac uchelgeisiol ar gyfer diwygio addysg yng Nghymru. Mae codi safonau addysg a gwella deilliannau dysgwyr wrth wraidd y rhaglen.

Caiff gwella ysgolion yn gynaliadwy ei gefnogi gan gynllunio tymor byr a hirdymor effeithiol, sydd wedi'i gyplysu â thargedau heriol. Mae cynllunio ar gyfer gwelliant yn broses ddisgybledig sy'n cynnwys hunanwerthuso gonest gan ddefnyddio data ansoddol a meintiol. Adlewyrchir hyn mewn cylch di-dor pan fydd ysgol yn myfyrio ar ei pherfformiad, yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella, yn datblygu strategaethau i roi sylw iddynt, yn gweithredu, ac yn adolygu cynnydd ac effaith.

Daw adroddiad blynyddol Estyn ar gyfer 2012–13 i'r casgliad y gallai hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant gael eu gwella mewn ychydig dros chwarter yr ysgolion hynny yng Nghymru a arolygwyd. Felly, rydym yn gwybod bod gan lawer o ysgolion eisoes brosesau cynllunio effeithiol ar gyfer datblygu eu hysgol a phrosesau hunanwerthuso cadarn ar waith ac nid ydym eisiau cyfyngu ar yr ysgolion hynny. Bwriad y canllawiau hyn yw cefnogi pob ysgol i ymgorffori dull o gynllunio cadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac sy'n arwain at newidiadau cadarnhaol yn neilliannau dysgwyr ac yn adlewyrchu'r arferion gorau mewn ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014 ('y Rheoliadau'). Mae'r Rheoliadau'n ymwneud â pharatoi cynllun datblygu ysgol, gan gynnwys y materion y dylid rhoi sylw iddynt mewn cynllun datblygu ysgol, y cyfnod a gwmpesir gan y cynllun datblygu ysgol, y gofynion o safbwynt adolygu a diweddaru'r cynllun datblygu ysgol, a'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun datblygu ysgol.

Rydym yn cydnabod y bydd ysgolion o bosibl eisoes yn defnyddio teitlau eraill ar gyfer eu cynllun datblygu ysgol megis 'cynllun gwella ysgol'. Defnyddir 'cynllun datblygu ysgol' yma fel teitl generig i gyfeirio at y ddogfen sydd gan ysgol ar waith i fodloni gofynion y Rheoliadau. Mae ysgolion yn rhydd i ddefnyddio pa bynnag deitl y teimlant sy'n briodol cyn belled â bod y ddogfen yn bodloni gofynion y Rheoliadau.

Trwy gydol y ddogfen hon cyfeirir at Reoliadau unigol o Reoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014. Mae'r cyfeiriadau hyn yn ymddangos mewn cromfachau, er enghraifft (Rheoliad 3), ac fe'u cynhwyswyd er hwylustod. Mae'r Rheoliadau i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/school-development-plans/?lang=cy.

Cynlluniau datblygu ysgolion
Hydref 2014
Dogfen ganllaw rhif: 155/2014

# Diben cynllun datblygu ysgol

Y cynllun datblygu ysgol yw cynllun strategol yr ysgol ar gyfer gwelliant. Mae'n nodi'r camau y bydd ysgol yn eu cymryd i wella deilliannau dysgwyr. Bydd cynllun datblygu ysgol yn cael ei lywio gan yr hunanwerthuso a wna ysgol o'i pherfformiad ei hun ynghyd â data cyd-destunol, a bydd yn cynnwys blaenoriaethau gwella'r ysgol yn ogystal â thargedau tymor byr a thymor hwy. Bydd blaenoriaethau'r ysgol yn cynnwys sut mae'r ysgol yn rhoi sylw i'r blaenoriaethau cenedlaethol, sef:

- codi safonau addysg mewn perthynas â llythrennedd
- codi safonau addysg mewn perthynas â rhifedd
- lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

Bydd y cynllun datblygu ysgol yn nodi sut bydd yr ysgol yn cyrraedd ei thargedau, o ran ei blaenoriaethau, a sut bydd yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys cyllid. Rhaid iddo hefyd nodi sut mae'r ysgol yn bwriadu datblygu ei staff (gan gynnwys y rheini sy'n gweithio yn yr ysgol dros dro) er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r ysgol a chyrraedd ei thargedau.

Wrth ddatgan y cynllun cyffredinol ar gyfer gwella ar gyfer y tair blynedd nesaf, bydd y cynllun datblygu ysgol yn cynnwys digon o fanylion i alluogi i gamau gweithredu i roi sylw i'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ysgol bresennol gael eu nodi a'u rhoi ar waith, yn ogystal â blaenoriaethau a thargedau lefel uchel ar gyfer yr ail a'r drydedd flwyddyn. Mae'n ddogfen fyw y dylid ei hadnewyddu'n rheolaidd i adlewyrchu cynnydd yr ysgol wrth gyflawni ei blaenoriaethau, gan ystyried y data perfformiad diweddaraf.

Dylai'r cynllun datblygu ysgol fod yn ddogfen hygyrch a chael ei defnyddio fel man cyfeirio cyffredin i'r holl staff a'r llywodraethwyr wrth fyfyrio ar eu gwaith a'i wella ac nid oes angen cynnwys mwy o fanylion yn y cynllun nag sydd ei angen i gyflawni ei brif ddiben. Dylid barnu ansawdd y cynllun yn ôl i ba raddau y mae'n cael effaith ar wella yn hytrach nag yn ôl faint o fanylder sydd ynddo.

Fel rhan o'r model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol bydd y cynllun datblygu ysgol hefyd yn chwarae rhan allweddol i lywio ymgysylltiad Cynghorwyr Herio yn eu rôl 'herio a chynorthwyo' gydag ysgolion, a bydd hefyd yn fodd i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gael un pwynt cyfeirio clir ar gyfer gweithgareddau gwella arfaethedig ysgolion.

# Rolau a chyfrifoldebau

Mae cyrff llywodraethu yn gyfrifol am hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad addysgol mewn ysgolion a gynhelir[1]. Y pennaeth sy'n gyfrifol am reoli'r ysgol[2] a, gyda'r corff llywodraethu, mae gan y pennaeth rôl allweddol i'w chwarae o ran arwain gwaith yr ysgol a'i chapasiti i wella.

Mae'r Rheoliadau'n gosod dyletswydd ar y corff llywodraethu i baratoi (Rheoliad 3), monitro, adolygu a diwygio (Rheoliad 6) cynllun datblygu ysgol. Drwy fod yn gyfrifol am ei baratoi a'i adolygu, bydd y corff llywodraethu yn gyfrifol am gytuno ar y cynllun datblygu ysgol a'i gymeradwyo. Mae'r materion y mae'n rhaid ymdrin â nhw mewn cynllun datblygu ysgol wedi'u nodi yn yr Atodlen i'r Rheoliadau (Rheoliad 4).

Er mai'r corff llywodraethu sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros y cynllun datblygu ysgol, yn ymarferol bydd y pennaeth yn gweithio gyda'r staff a'r corff llywodraethu i lunio'r cynllun datblygu ysgol a bydd yn gyfrifol am roi ar waith y camau a'r strategaethau sy'n angenrheidiol i sicrhau gwelliant.

1 *Canllaw i'r Gyfraith i Lywodraethwyr Ysgolion*, pennod 2 'Cyrff Llywodraethu: Eu Pwerau, Eu Dyletswyddau a'u Cysylltiadau ag Eraill' (Llywodraeth Cymru, 2012).

2 Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000.

# Nodweddion cynllun datblygu ysgol effeithiol

Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu dull o lunio cynllun datblygu ar gyfer yr ysgol, ond ni fwriedir iddynt fod yn rhy gaeth. Bydd pob ysgol ar ei phwynt ei hun ar ei thaith at welliant ac mae'n bosibl na fydd yr hyn sy'n gweithio'n dda mewn un ysgol yn briodol mewn ysgol arall.

Yr allwedd i wella ysgolion yw llunio cynllun datblygu ysgol effeithiol, cynllun fydd yn cael ei osod yng nghyd-destun gweledigaeth hirdymor yr ysgol ac a fydd yn meddu ar y nodweddion allweddol canlynol.

- Yr effaith ar ddeilliannau dysgwyr fydd yn cael ei ystyried fel y mesur o'i effeithiolrwydd yn hytrach na'r gwaith o lunio'r cynllun ei hun.
- Bydd holl bartneriaid a rhanddeiliaid yr ysgol yn cyfranogi i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella.
- Bydd hunanwerthuso darpariaeth a pherfformiad yr ysgol yn ogystal â data cyd-destunol yn dylanwadu ar y cynllun.
- Bydd yn canolbwyntio, fel ei gilydd, ar flaenoriaethau a chamau gweithredu tymor byr a hirdymor a fydd yn codi safonau ac yn gwella deilliannau i bob dysgwr, beth bynnag y bo'i gefndir.
- Bydd yn darparu cyd-destun i'r broses rheoli perfformiad ar gyfer yr holl staff.
- Bydd yn broses barhaus sy'n cael ei hadlewyrchu yn statws y cynllun datblygu ysgol fel 'dogfen fyw'.

Yn ei lawlyfrau ar hunanasesu[3], mae Estyn yn nodi nodweddion allweddol cynllun datblygu ysgol effeithiol. Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w chael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk/cymraeg/gwybodaeth-am-arolygiadau/arweiniad-arolygu.

[3] *Canllaw hunanasesu ar gyfer ysgolion cynradd 2014*; *Canllaw hunanasesu ar gyfer ysgolion uwchradd 2014*; *Canllaw hunanasesu ar gyfer ysgolion arbennig 2014*.

# Cylch llunio cynllun datblygu ysgol

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg ar gylch llunio cynllun datblygu ysgol ac yn adlewyrchu'r modd y mae llawer o ysgolion eisoes yn gweithredu sef drwy osod blaenoriaethau a thargedau sy'n seiliedig ar hunanwerthuso gonest a chadarn. Yn yr ysgolion hyn, mae hyn yn arwain at gynllun datblygu ysgol sydd, pan gaiff ei weithredu'n effeithiol, yn esgor ar welliant pendant. Yn ganolog i'r dull hwn y mae adolygu a gwerthuso parhaus sy'n ffurfio elfen allweddol o'r cylch cynllunio.

Mae ysgolion yn cael eu rhwymo gan y ddeddfwriaeth bresennol a fydd yn effeithio ar gynnwys cynlluniau datblygu ysgol a'r amserlen ar gyfer eu llunio. Mae Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd ar gyrff llywodraethu i osod a chyflwyno targedau perfformiad penodol i'r awdurdod lleol erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn. Mae Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 yn mynnu bod gan ysgolion bolisi rheoli perfformiad ar waith. Drwy'r broses rheoli perfformiad, caiff anghenion datblygu unigol eu nodi, a bydd yr anghenion datblygu hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014 yn dynodi mai tair blynedd fydd cyfnod y cynllun datblygu ysgol a bod yn rhaid i'r gyntaf ddechrau ar 1 Medi 2015 fan bellaf (Rheoliad 5 (2)).


**Yn ymarferol mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ysgol, erbyn 1 Medi 2015, fod â chynllun datblygu ysgol ar waith a bod hwnnw, o leiaf, yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Rheoliadau.**

Er hynny, mater i ysgolion unigol yw penderfynu ar y cylch hunanwerthuso a chynllunio datblygiad sy'n gweithio orau iddynt nhw (Rheoliad 5(1)) o fewn cyfyngiadau'r amserlenni a amlinellir uchod.

Mae'n ofynnol i'r cynllun datblygu ysgol weithredu fel cynllun tair blynedd treigl (Rheoliad 5(3)). Bydd cynllun datblygu ysgol, felly, bob amser yn ymdrin â chyfnod o dair blynedd o ddyddiad ei baratoi neu'r diweddariad diwethaf. Bydd blwyddyn gyntaf y cynllun yn cynnwys blaenoriaethau, targedau a strategaethau manwl; bydd yr ail a'r drydedd flwyddyn yn cofnodi blaenoriaethau a thargedau lefel uchel.

Mae ffigur 1 yn nodi cylch gwella nodweddiadol, sef hunanwerthuso, cynllunio, gweithredu ac adolygu yn erbyn gweledigaeth hirdymor yr ysgol.

**Ffigur 1: Cylch llunio cynllun datblygu ysgol**




## Gweledigaeth

Mae'r cylch llunio cynllun datblygu ysgol yn cael ei osod yn erbyn gweledigaeth glir o'r hyn y mae'r ysgol yn anelu i'w gyflawni. Bydd gweledigaeth glir yn gosod y cyd-destun ar gyfer y cynllun datblygu ysgol. Er mwyn i'r ysgol wneud gwelliannau parhaus a symud ymlaen mae angen iddi fod â phwrpas clir y mae pawb yn ei rannu a'i ddeall. Wrth osod ei gweledigaeth, dylai ysgol ystyried y cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo a chytuno ar weledigaeth sy'n ysgogi ac yn gyraeddadwy, ac yn cael ei hategu gan strategaethau ymarferol cadarn.

## Cam 1: Hunanwerthuso

Hunanwerthuso yw ffordd ysgolion o fyfyrio ar eu perfformiad ac maent yn ei ddefnyddio fel sail i gynllunio ar gyfer gwelliant cynaliadwy. Mae'r broses o hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn ganolog i gefnogi datblygiadau mewn gwella ysgolion, dysgu proffesiynol a deilliannau dysgwyr. Fel proses flynyddol, mae hunanwerthuso yn adnodd allweddol i gynorthwyo ysgol i asesu ei pherfformiad. Mae'n helpu ysgolion i weld:

- pa mor dda y maent yn perfformio
- meysydd cryfder
- yr hyn sydd angen ei wella
- pa gamau i'w cymryd i wneud y gwelliannau hynny.

Yn ystod y flwyddyn, bydd ysgolion yn asesu eu cynnydd yn erbyn targedau/cerrig milltir a osodwyd fel rhan o'u trefniadau monitro rheolaidd.

Mae'n bwysig sylwi bod cynllunio ar gyfer datblygu ysgol nid yn unig yn broses ar gyfer nodi a rhoi sylw i anghenion datblygu ysgol. Mae nodi cryfderau, gan adeiladu ar y rhain a dathlu a rhannu'r arferion gorau, o fewn yr ysgol ac yn ehangach, yn rhan hanfodol o welliant ar draws y system.

Mae Estyn wedi tynnu sylw at bwysigrwydd bod ysgolion yn hunanwerthuso i nodi eu cryfderau a meysydd i'w datblygu ac mae wedi gweld cydberthynas gref rhwng hunanwerthuso gan yr ysgol sy'n canolbwyntio ar effaith a deilliannau, a gwelliannau mewn profiadau addysgol a deilliannau ar gyfer dysgwyr[4].

Mae ysgolion yn cael mynediad at ystod o ddata i gefnogi'r broses gynllunio ar gyfer datblygiad yr ysgol, gan gynnwys data sy'n ymwneud â grwpiau penodol o ddysgwyr, e.e. y rheini sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae gan ysgolion hefyd fynediad i ddata meincnodi fel y gallant gymharu eu hunain yn erbyn yr ysgolion sy'n perfformio orau a'r rheini sy'n rhan o'u teulu nhw o ysgolion. Dylai ysgolion ddefnyddio'r systemau data presennol i osgoi dyblygu a biwrocratiaeth ychwanegol. Bydd defnyddio data ansoddol a meintiol effeithiol yn dylanwadu ar

[4] *Canllaw hunanasesu ar gyfer ysgolion cynradd 2014*; *Canllaw hunanasesu ar gyfer ysgolion uwchradd 2014*; *Canllaw hunanasesu ar gyfer ysgolion arbennig 2014*.

unrhyw drefn hunanwerthuso gadarn. Ceir rhagor o wybodaeth am ddefnyddio data yn effeithiol ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/usingdataeffectively/;jsessionid=2D63E9BFAFE001B9A5627D726C4F6352?lang=cy

Bydd data ansoddol yn cynnwys:

- adroddiadau arolygu ar gyfer yr ysgol
- gwybodaeth am les dysgwyr.

Gallai hefyd gynnwys gwybodaeth a geir o ymgynghori â dysgwyr, rhieni/gofalwyr, staff, a sefydliadau ac asiantaethau allanol y bydd yr ysgol yn gweithio gyda nhw o bosibl fel rhan o'r cyswllt ehangach â'r gymuned.

Bydd data meintiol yn cynnwys:

- unrhyw wybodaeth sy'n cymharu ysgolion a chanlyniadau cyrhaeddiad dysgwyr yn yr ysgol (Rheoliad 8) – bydd y set ddata graidd ar gyfer Cymru gyfan yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol, felly hefyd yr wybodaeth asesu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen
- gwybodaeth bandio ysgolion
- gwybodaeth olrhain am gynnydd dysgwyr
- System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion
- PISA
- ffactorau cyd-destunol ehangach, e.e. cymdeithasol-economaidd, ieithyddol, tueddiadau cofrestru, cyfleusterau yn yr ysgol
- gwybodaeth am absenoldeb ymysg gweithlu'r ysgol
- data am bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Gallai dulliau diagnostig eraill, megis y rhai a ddefnyddir yn y Rhaglen Gymorth Genedlaethol (RhGG), Her Ysgolion Cymru a rhaglenni gwella eraill, hefyd gyfrannu at hunanwerthuso.

Yn ei lawlyfrau hunanasesu, mae Estyn yn rhoi tri chwestiwn allweddol i ysgolion weithio drwyddynt yn ystod y broses hunanwerthuso.

- Pa mor dda ydym yn gwneud?
- Sut ydym yn gwybod?
- Sut gallwn ni wella pethau ymhellach?

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk/cymraeg/gwybodaeth-am-arolygiadau/arweiniad-arolygu.

Efallai y bydd o fudd i ysgolion gyfeirio at y pecyn dysgu ar ymchwiliad proffesiynol, *Cyflwyniad i ymchwiliad proffesiynol athrawon*, sydd ar gael ar wefan Dysgu Cymru yn www.dysgu.cymru.gov.uk/pecynnaudysgu. Mae'r pecyn dysgu'n rhoi cyngor ac arweiniad defnyddiol ar ddefnyddio data hunanwerthuso.

Ar ôl cynnal proses hunanwerthuso gadarn a gonest, bydd meysydd cryfder a meysydd i'w datblygu wedi cael eu nodi. Er mai'r meysydd i'w datblygu yn y pen draw fydd yn dod yn ganolbwynt i'w cynnwys yn y cynllun datblygu ysgol, fel y soniwyd eisoes mae hefyd yn bwysig bod meysydd cryfder yn cael eu nodi a'u rhannu i helpu i ysgogi newid ar draws y system gyfan.

## Cam 2: Cynllunio strategol

Er mwyn i'r broses o lunio cynllun datblygu ysgol fod yn fwyaf effeithiol, dylai gynnwys holl bartneriaid a rhanddeiliaid yr ysgol; mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod gan bawb ymrwymiad i agenda gwella'r ysgol. Wrth baratoi cynllun datblygu ysgol, rhaid i'r corff llywodraethu ymgynghori â'r pennaeth (sydd yn y rhan fwyaf o achosion yn aelod o'r corff llywodraethu), staff yr ysgol, dysgwyr, rhieni/gofalwyr ac eraill sy'n gysylltiedig â bywyd a gwaith yr ysgol, e.e. awdurdod lleol, cynghorydd herio consortia rhanbarthol, ysgolion eraill, y gymuned, ac ati (Rheoliad 9). Mae rhai ysgolion yn gwasanaethu ardal llawer ehangach na'r ardal lle lleolir yr ysgol, er enghraifft ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion ffydd ac ysgolion arbennig, a rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau ei fod yn gweithio gyda'r gymuned ehangach y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu. Bydd pob ysgol yn penderfynu sut y bydd hyn yn cael ei wneud, ond mae hyn yn rhan hanfodol o'r broses o lunio cynllun datblygu ysgol a bydd yn helpu i hyrwyddo ymdeimlad o berchnogaeth a gweithio ar y cyd tuag at welliant.

Gall ysgolion ar hyn o bryd fod yn llunio nifer o gynlluniau fel rhan o'r broses gynllunio a gallai'r rhain gynnwys, er enghraifft, cynllun datblygu ysgol, cynllun datblygu staff, cynlluniau ar gyfer gwario arian grant, cynllun gweithredu ar ôl arolygiad a/neu gynllun i sicrhau bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) wedi'i ymgorffori yn y cwricwlwm.

Dim ond un cynllun gwella strategol y mae ar ysgolion ei angen. Un ffordd o gofnodi ei strategaethau a'i swyddogaethau a'i blaenoriaethau gwella ddylai fod gan yr ysgol fel man cychwyn ar gyfer unrhyw her, cymorth ac ymyriadau allanol, sef y cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn fodd o symleiddio prosesau cynllunio strategol ysgolion ac o osgoi dyblygu diangen a biwrocratiaeth ychwanegol. Ni ddylai felly fod yn angenrheidiol cael cynlluniau ar wahân ar waith, megis cynlluniau ar gyfer gwario grantiau – dylai'r rhain fod yn rhan annatod o'r cynllun datblygu ysgol, a bydd hwn yn adlewyrchu'r amgylchiadau y mae'r ysgol ynddynt ar unrhyw bwynt mewn amser.

Fodd bynnag, yn dilyn arolygiad gan Estyn, mae'n ofynnol yn gyfreithiol ar hyn o bryd i lunio datganiad ysgrifenedig neu gynllun gweithredu ôl-arolygiad, fel y'i gelwir yn gyffredin, gan ddatgan sut mae'r ysgol yn bwriadu rhoi sylw i'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad arolygu[5]. Mae angen paratoi'r cynllun gweithredu ar ôl arolygiad cyn pen 20 diwrnod gwaith[6] a'i ddosbarthu i'r partïon perthnasol yn ôl y gyfraith. Mae'r Rheoliadau ar gynlluniau datblygu ysgolion yn nodi bod yn rhaid i'r cynllun datblygu ysgol gael ei adolygu yn dilyn arolygiad i ystyried canfyddiadau ac argymhellion yr arolygiad ynghyd â'r camau gweithredu arfaethedig.

Mater i ysgolion yw penderfynu ar y ffordd orau o fodloni'r gofynion cyfreithiol hyn, ond gallai gwybodaeth sy'n ymwneud â'r arolygiad gael ei dethol o'r cynllun datblygu ysgol (sydd wedi cael ei ddiwygio yn dilyn yr arolygiad) a'i rhoi mewn atodiad y gellid ei gyhoeddi fel y cynllun gweithredu ar ôl arolygiad. Fel hyn mae'r cynllun gweithredu ar ôl arolygiad yn dod yn rhan o'r cynllun datblygu ysgol.

### Cynnwys cynllun datblygu ysgol (yr Atodlen i'r Rheoliadau ar gynlluniau datblygu ysgolion)

Mae'n bwysig nodi mai dynodi'r gofynion sylfaenol ar gyfer cynllun datblygu ysgol a wna'r Rheoliadau. Ni fydd ysgolion sydd eisoes yn meddu ar gynllun datblygu ysgol effeithiol sy'n rhagori ar y gofynion sylfaenol, o anghenraid, angen newid eu dull ond dylent fodloni eu hunain nad yw eu proses gynllunio'n rhy feichus. Gall ysgolion ddefnyddio fformat ac arddull sy'n addas ar gyfer eu hanghenion penodol nhw eu hunain ar gyfer eu cynllun datblygu ysgol, ond fe'u hanogir i rannu dulliau effeithiol.



[5] Deddf Addysg 2005; Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006; Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud ag Arolygu Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2014.

[6] Gydag ysgolion sydd angen 'gwelliant sylweddol' neu 'fesurau arbennig', gallai Gweinidogion Cymru gyfarwyddo paratoi'r cynllun gweithredu ar ôl arolygiad mewn amserlen fyrrach.

### Blaenoriaethau gwella ysgol (paragraff 1 o'r Atodlen)

Dylai'r corff llywodraethu, y pennaeth a staff yr ysgol weithio gyda'i gilydd i benderfynu ym mha drefn flaenoriaeth y dylid rhoi'r meysydd i'w datblygu a nodwyd drwy'r hunanwerthuso. Efallai y bydd ysgolion yn dymuno holi eu cynghorydd herio yn ystod y broses hon ac, mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd y consortia rhanbarthol yn gofyn i'r cynghorwyr herio weithio'n agos gydag ysgolion yn ystod y broses hon. Dylai ysgolion osod blaenoriaethau heriol ond realistig ar gyfer y tair blynedd nesaf; yn fanwl ar gyfer y flwyddyn ysgol bresennol ac ar lefel uchel ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol. Rhaid i flaenoriaethau'r ysgol gynnwys sut rhoddir sylw i'r blaenoriaethau cenedlaethol.

### Targedau gwella ysgolion, deilliannau disgwyliedig a strategaeth (paragraff 2 o'r Atodlen)

Unwaith y bydd y blaenoriaethau wedi cael eu nodi, rhaid i'r corff llywodraethu gymeradwyo manylion y targedau y cytunodd yr ysgol arnynt, y deilliannau disgwyliedig o ganlyniad i gyrraedd y targedau hynny a'r strategaethau ar gyfer eu cyrraedd. Rhaid i'r targedau ar gyfer gwella fod yn fesuradwy (pryd bynnag y bo hynny'n briodol) ac yn briodol o heriol.

Wrth nodi eu strategaethau dylai ysgolion ystyried sut allant adeiladu ar eu cryfderau presennol a dysgu oddi wrth gryfderau ysgolion eraill. Dylai ysgolion fod yn effro i gyfleoedd i weithio ar y cyd a rhannu'r arfer gorau.

Dylai meini prawf llwyddiant clir gael eu datblygu, meini prawf y gellir gwerthuso'r gwelliannau y bwriedir eu cyflawni yn eu herbyn. Mae'n bosibl y bydd ysgolion yn dymuno datblygu cerrig milltir addas i fesur a gwerthuso cynnydd yn ystod y flwyddyn. Dylai'r deilliannau ganolbwyntio ar bwrpas craidd y cynllun datblygu ysgol, gan godi safonau a gwella deilliannau i bob dysgwr.

### Strategaeth datblygu proffesiynol (paragraff 3 o'r Atodlen)

Cydnabyddir yn eang mai ansawdd yr addysgu yw'r ffactor unigol pwysicaf i helpu dysgwyr gyflawni. Felly, mae angen i ysgolion sicrhau bod y rhai sydd naill ai'n addysgu, yn cefnogi addysgu neu'n arwain addysgu yn meddu ar y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i ddarparu addysgu o ansawdd uchel.

Rhaid i'r cynllun datblygu ysgol gynnwys manylion am ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer rhoi sylw i anghenion datblygiad proffesiynol yr holl staff, gan gynnwys datblygu arweinyddiaeth, mewn perthynas â chyflawni blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r darpariaethau hyn hefyd

yn cynnwys staff a leolir dros dro yn yr ysgol a fydd yn cynnwys athrawon cyflenwi byrdymor a thymor hir. Bydd darpariaeth ysgolion ar gyfer cefnogi datblygiad proffesiynol yr ymarferwyr hyn yn naturiol yn adlewyrchu natur eu contract a'u swydd.

Canfu Estyn mai un nodwedd sy'n gyffredin mewn arweinyddiaeth ragorol sy'n arwain at addysgu rhagorol yw datblygiad proffesiynol sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwella, ac ar ddatblygu sgiliau ac arbenigedd unigolion yng nghyd-destun blaenoriaethau'r ysgol[7].

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pob ymarferydd yn cael mynediad i ddysgu proffesiynol gydol gyrfa sy'n effeithiol, yn gynaliadwy ac yn gysylltiedig â'r blaenoriaethau cenedlaethol. Yn sail i'r dull hwn y mae'r model ymarfer, adolygu a datblygu sy'n integreiddio safonau proffesiynol, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol er mwyn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn canolbwyntio ar flaenoriaethau gwella'r ysgol ac yn cael ei deilwra i roi sylw i anghenion unigolion. Mae'r Rheoliadau presennol (Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011) yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion fod â pholisi rheoli perfformiad ar waith.

Mae model dysgu proffesiynol cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn nodi nodweddion allweddol dulliau effeithiol o ddatblygu proffesiynol sydd wedi cael eu llywio gan yr ymchwil academaidd ddiweddaraf, ac y profwyd iddynt gael effaith gadarnhaol ar ymarfer yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- hyfforddi a mentora
- defnyddio data a thystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio'n dda
- cydweithredu effeithiol
- ymarfer myfyriol.

Bydd y model dysgu proffesiynol cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â'r broses rheoli perfformiad a'r safonau proffesiynol i sicrhau bod anghenion datblygiad proffesiynol ymarferwyr wedi'u cysylltu'n gadarn â blaenoriaethau, fel y ceir yn y cynllun datblygu ysgol, a'u bod yn cael eu bodloni yn y ffordd fwyaf priodol ac effeithiol.



[7] Adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2012–13.

Mae ymchwil ryngwladol hefyd yn dangos mai ail yn unig i addysgu yn y dosbarth yw arweinyddiaeth ysgol fel dylanwad ar ddysgu disgyblion[8]. Mae'n ofynnol i benaethiaid fodloni'r Safonau Arweinyddiaeth yn llawn. Ar gyfer ymarferwyr eraill, athrawon a staff cymorth gellir defnyddio'r Safonau Arweinyddiaeth fel adnodd i gefnogi datblygu arweinyddiaeth parhaus. Dylai arweinyddiaeth ar bob lefel gael ei meithrin a'i datblygu i gynyddu capasiti arweinyddiaeth yr ysgol a meithrin arweinwyr effeithiol ar gyfer y dyfodol. Dylai'r Safonau Arweinyddiaeth fod yn sail i ddatblygu arweinyddiaeth ar bob ffurf ac mae'r adnodd rhyngweithiol Adolygiad Arweinyddiaeth Unigol[9] yn galluogi ymarferwyr i adolygu eu hymarfer eu hunain yn erbyn y safonau a nodi meysydd a chyfleoedd ar gyfer datblygu. Dylai ysgolion gefnogi ac annog yr ymgysylltu hwn gyda'r safonau ac Adolygiad Arweinyddiaeth Unigol a cheisio darparu cyfleoedd datblygu arweinyddiaeth sy'n bodloni anghenion ymarferwyr unigol a blaenoriaethau gwella'r ysgol, fel ei gilydd.

Wrth benderfynu ar ddull ysgol o sicrhau datblygiad proffesiynol ei staff, dylid rhoi ystyriaeth i fabwysiadu strategaethau sy'n lleihau effaith negyddol absenoldeb athrawon o'r ystafell ddosbarth ar gynnydd dysgwyr. Dylai hyn fod yn gytbwys â'r angen i ddarparu profiadau dysgu proffesiynol o ansawdd uchel a bydd angen i ysgolion asesu yn ofalus effaith eu darpariaeth fel eu bod yn hyderus eu bod yn cael y cydbwysedd gorau posibl.

Fel rhan o ddysgu proffesiynol ehangach, efallai y bydd ysgolion hefyd yn dymuno ystyried sut allant weithio mewn partneriaeth â darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon i ddatblygu ymarfer mewn mentora o ansawdd uchel yn ystod lleoliadau addysgu ymarferol.

Fel rhan o'r trefniadau cyflenwi ar gyfer gwella ysgolion o dan y model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol, mae datblygiad proffesiynol yn flaenoriaeth allweddol i gonsortia rhanbarthol. O fis Medi 2014 ymlaen, disgwylir y bydd y consortia rhanbarthol yn gweithio gyda'i gilydd i sefydlu darpariaeth gyson ledled Cymru i gefnogi gwell addysgu, gan gynnwys cydnabod ymarfer eithriadol, a datblygu arweinyddiaeth effeithiol.

I gefnogi defnyddio arian grant yn effeithiol, disgwylir i'r consortia rhanbarthol sicrhau bod datblygiad proffesiynol ymarferwyr, gan gynnwys datblygu arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel mewn ysgolion, yn elfen allweddol o fodloni blaenoriaethau gwella ysgolion ac yn cefnogi'r gwaith



[8] *Seven strong claims about successful school leadership* (Coleg Cenedlaethol Arweinyddiaeth Ysgolion, 2006).

[9] Ceir rhagor o wybodaeth ar yr Adolygiad Arewinyddiaeth Unigol yn www.learning.wales.gov.uk/yourcareer/leadershipdevelopment/individual-leadership-review/?skip=1&lang=cy

o gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol. Mae disgwyl i gonsortia rhanbarthol hyrwyddo newid diwylliannol gan droi ymaith oddi wrth fuddsoddi mewn cyrsiau 'un-tro' sy'n cael effaith gyfyngedig, fechan ar gyfer unigolion at ffurfiau mwy effeithiol a chydweithredol ar ddysgu proffesiynol. Bydd ymgysylltu â chynghorwyr herio consortia rhanbarthol yn hanfodol i sicrhau bod cynlluniau gwario grantiau'n cael eu hintegreiddio'n llwyddiannus yn y cynllun datblygu ysgol. Lle bo angen, bydd y cynghorydd herio'n rhoi cyngor a chefnogaeth ar y ffordd orau o ddefnyddio'r grant i gyflawni blaenoriaethau gwella'r ysgol.

Yn y dyfodol, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda chonsortia rhanbarthol i ystyried sut i symleiddio'r broses o weinyddu arian grantiau er mwyn lleihau beichiau gweinyddol a rhyddhau mwy o adnoddau i gefnogi dysgu proffesiynol o ansawdd uchel. Bydd angen i ysgolion sicrhau hefyd eu bod yn cael y gwerth gorau am arian drwy gyfeirio cyllid at weithgareddau y gwyddys eu bod yn cael yr effaith orau.

### Gweithio gyda'r gymuned (paragraff 4 o'r Atodlen)

Fel y soniwyd eisoes, er mwyn i'r broses o lunio cynllun datblygu'r ysgol fod yn fwyaf effeithiol, dylai gynnwys holl bartneriaid a rhanddeiliaid yr ysgol. Rhaid i'r cynllun datblygu ysgol gynnwys manylion sut fydd y corff llywodraethu'n gweithio gyda'r gymuned ysgol ehangach, e.e. rhieni/gofalwyr dysgwyr yn yr ysgol, trigolion lleol, ysgolion eraill, asiantaethau a busnesau, i geisio cyflawni blaenoriaethau gwella'r ysgol.

### Staff yr ysgol ac adnoddau'r ysgol (paragraff 5 o'r Atodlen)

Mae'r adran hon yn delio â'r modd y mae'r ysgol yn defnyddio ei staff ac adnoddau eraill. Mae adnoddau'n cynnwys, ond nid yn unig, gyllid, offer, adeiladau a thir yr ysgol, ac ati.

Un ffactor allweddol i wella ysgol yw sicrhau bod y bobl iawn gyda'r sgiliau iawn yn y lle iawn ar yr adeg iawn er mwyn cyflawni amcanion sefydliadol byrdymor a thymor hir.

Mae cynllunio'r gweithlu yn broses barhaus sydd yn rhan annatod o gynllunio datblygiad yr ysgol. Mae'n galluogi ysgolion i wneud y gorau o'u hadnoddau a meithrin gallu ar y pryd ac i'r dyfodol mewn modd strwythuredig a gynlluniwyd, ac mae'n sicrhau cynllunio olyniaeth yn effeithiol. Dylai ysgolion ystyried sgiliau a gallu eu gweithlu a'r adnoddau eraill sydd ar gael iddynt er mwyn cyflawni eu blaenoriaethau a'u targedau gwella ar gyfer yr ysgol. Bydd hyn yn cysylltu'n agos â chynlluniau'r ysgol i ddatblygu ei staff fel bod ganddi

weithlu sydd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i fodloni anghenion y dysgwyr.

Wrth gynllunio ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol, bydd y pennaeth a'r llywodraethwyr yn gwbl hysbys o'r staff a'r cyllid sydd ar gael ganddynt. Rhaid i'r cynllun datblygu ysgol ddatgan sut fydd y corff llywodraethu'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i fodloni targedau gwella ei ysgolion orau.

Rhaid i'r cynllun datblygu ysgol bob amser gwmpasu cyfnod o dair blynedd. Ar gyfer blynyddoedd dau a thri o'r cynllun, bydd angen i gyrff llywodraethu gofnodi sut maent yn bwriadu defnyddio'r adnoddau presennol a'r adnoddau a ragwelir i gyrraedd eu targedau gwella ysgolion. Mae ystyried y ddarpariaeth tymor hwy yn cefnogi dull mwy rhagweithiol o sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl ac yn caniatáu mwy o amser ar gyfer ail-gyflunio adnoddau lle teimlir bod hyn yn angenrheidiol i gyrraedd y targedau.

**Targedau blaenorol (paragraff 6 o'r Atodlen)**

Mae'r corff llywodraethu'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r cynnydd at gyrraedd targedau ac mae gofyn iddo gynnwys datganiad yn y cynllun datblygu ysgol yn nodi i ba raddau y cyrhaeddwyd targedau gwella'r ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol flaenorol. Os na chyrhaeddwyd y targedau, rhaid cynnwys datganiad byr ar y rheswm am hynny ac amlinellu unrhyw gamau unioni y dylid eu cymryd. Ni ddylai'r datganiad hwn gynnwys unrhyw gyfeiriad (uniongyrchol nac anuniongyrchol) at staff unigol.

Dylai ysgolion werthuso effeithiolrwydd targedau a gyrhaeddwyd, o safbwynt codi safonau a gwella deilliannau i bob dysgwr.

## Cam 3: Gwneud gwelliant/gweithredu

Y cam nesaf yng nghylch llunio cynllun datblygu'r ysgol yw rhoi ar waith y camau gweithredu a'r strategaethau a amlinellir yn y cynllun datblygu ysgol.

Bydd staff yr ysgol wedi cael eu cynnwys yn y gwaith o baratoi a diwygio'r cynllun datblygu ysgol a byddant yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i roi ar waith y camau sy'n angenrheidiol i ysgogi gwelliant. Mae arweinyddiaeth o ansawdd uchel ar bob lefel yn hanfodol i gynnal cyfranogiad ac ymrwymiad y staff gydol y broses ddatblygu er mwyn i'r cynllun datblygu ysgol gael ei roi ar waith yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae'n bwysig bod y cynllun datblygu ysgol yn cynnwys manylion clir am gyfrifoldebau, atebolrwydd, camau gweithredu ac amserlenni er mwyn osgoi dryswch a dyblygu, ac er mwyn sicrhau'r bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.

## Cam 4: Adolygu effaith

Dylai cynlluniau datblygu ysgolion gael eu hystyried fel dogfennau byw sy'n cael eu monitro'n rheolaidd yn ystod y cylch datblygu a'u hadolygu'n ffurfiol a'u diwygio o leiaf bob blwyddyn.

Rhaid i'r corff llywodraethu fonitro, adolygu a diweddaru'r cynllun datblygu ysgol yn flynyddol (o leiaf) neu ar ôl arolygiad Estyn, pa un bynnag sydd gyntaf (Rheoliad 6). Bydd hyn yn sicrhau bod cynlluniau a strategaethau gwella'r ysgol yn adlewyrchu cyd-destun diweddaraf yr ysgol. Os bydd y cynllun datblygu ysgol yn cael ei ddiwygio yn dilyn arolygiad, rhaid gwneud hynny o fewn yr amserlen ofynnol fel y nodir yn Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006.

# Cyhoeddi cynllun datblygu ysgol a mynediad iddo

Mae'n bwysig bod yr ysgol gyfan a'r gymuned ehangach yn ymwybodol o gynlluniau'r ysgol i sicrhau gwelliant.

Ar ôl i'r cynllun datblygu ysgol gael ei baratoi neu'i ddiwygio'n ffurfiol, mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu roi copïau o'r cynllun datblygu ysgol i bob aelod o'r corff llywodraethu a staff yr ysgol (Rheoliad 7).

Mae gan rieni/gofalwyr a'r gymuned ran bwysig i'w chwarae i godi safonau a gwella deilliannau dysgwyr, a bydd ysgolion eisoes wedi ymgysylltu â nhw i baratoi'r cynllun datblygu ysgol. Rhaid i gyrff llywodraethu drefnu bod copi cryno o'r gynllun datblygu ysgol ar gael drwy Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr yr Ysgol (mae Rheoliad 11 o'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2001 i gynnwys darpariaeth i'r perwyl hwnnw). Bydd y crynodeb yn cynnwys blaenoriaethau lefel uchel, targedau a chamau gweithredu ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol.

# Cymorth a her

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i gynorthwyo cyrff llywodraethu, arweinwyr ysgolion ac ymarferwyr i godi safonau a gwella deilliannau dysgwyr.

Mae sefydlu cynghorwyr herio mewn consortia rhanbarthol fel rhan o'r model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol yn elfen allweddol i gyflawni cyfrifoldebau awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i godi safonau perfformiad ysgolion a rhannu arfer effeithiol. Bydd y cynllun datblygu ysgol felly yn darparu ffocws ar gyfer ymgysylltu ag ysgolion; a bydd cynghorwyr herio yn herio ac yn cynorthwyo ysgolion i nodi a rhoi ar waith y camau sy'n angenrheidiol i sicrhau gwelliannau. Bydd cynghorwyr herio'n chwarae rhan allweddol i gysylltu ysgolion â'r gefnogaeth sydd ar gael gan y consortia rhanbarthol, a drwyddynt. Bydd y cynllun datblygu ysgol yn cyflawni'r un diben ar gyfer yr ysgolion a'r cynghorwyr herio hynny sy'n cymryd rhan yn Rhaglen Her Ysgolion Cymru.

## Arolygu

Mae agweddau ar y Fframwaith Arolygu Cyffredin (FfAC) yn canolbwyntio ar hunanwerthuso, cynllunio strategol, a rheoli staff ac adnoddau; mae'r agweddau hyn oll yn ofynion yn y cynllun datblygu ysgol.

Y man cychwyn ar gyfer arolygiadau yw hunanwerthuso gan yr ysgol ac, ymysg pethau eraill, bydd Estyn yn chwilio am gysylltiad clir rhwng hunanwerthuso, y cynllun datblygu ysgol a sut mae hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr.

O ran yr wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith yn dilyn arolygiad, cyfeiriwch at dudalen 11 o'r canllawiau hyn.

# Rhagor o wybodaeth

Ffilm 'Hunanwerthuso; hawdd dros ben', Estyn
www.estyn.gov.uk/cymraeg/arfer-orau/ffilmiau/hunanwerthuso-hawdd-dros-ben/

Pe*cyn cymorth hunanwerthuso NFER: canllawiau i ysgolion* (Llywodraeth Cymru, 2014)
www.learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/140729-nfer-self-evaluation-toolkit-en.xls

*Canllaw i'r Gyfraith i Lywodraethwyr Ysgolion* (Llywodraeth Cymru, 2012)
www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/schoolfundingandplanning/schoolgov/schoolgovguide/?skip=1&lang=cy

*Pecyn dysgu Cyflwyniad i ymchwiliad proffesiynol athrawon, Meistr mewn Ymarfer Addysgol (MYA)* (Llywodraeth Cymru, 2014)
www.learning.wales.gov.uk/learningpacks/mep/module1/?skip=1&lang=cy

Dogfennau canllaw rheoli perfformiad (Llywodraeth Cymru, 2012)
www.learning.wales.gov.uk/yourcareer/performancemanagement/pmguidance/?skip=1&lang=cy

*Fframwaith Arolygu Cyffredin* (Estyn, 2010)
www.estyn.gov.uk/cymraeg/search/?keywords=fframwaith+arolygu+cyffredin&gobut.x=0&gobut.y=0

*Ailysgrifennu'r dyfodol: codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru* (Llywodraeth Cymru, 2014)
*Ailysgrifennu'r dyfodol: Amserlen, llywodraethu a monitro* (Llywodraeth Cymru, 2014)
www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/raisingstandards/rewriting-the-future-schools/?skip=1&lang=cy

*School teachers' pay and conditions document 2014 and guidance on school teachers' pay and conditions* (yr Adran Addysg yn Lloegr, 2014)
www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/341951/School_teachers__pay_and_conditions_2014.pdf

*Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol* (Llywodraeth Cymru, 2014)
www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/national-model-for-regional-working/?skip=1&lang=cy

Cynlluniau datblygu ysgolion
Hydref 2014
Dogfen ganllaw rhif:
155/2014